## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4060 (CYLCHFAN FACH DOWLAIS I GYLCHFAN ABERCANNAID, MERTHYR TUDFUL) (TERFYNAU CYFLYMDER DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4060, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Fach Dowlais a Chylchfan Abercannaid, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn yw gosod dros dro derfyn cyflymder o naill ai 50 mya, 40 mya neu 30 mya ar y darnau o gefnffordd yr A4060 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 06:00 o'r gloch ar 1 Ionawr 2024 ac yn weithredol yn ysbeidiol am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Y darnau o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Fach Dowlais ac yn ei chynnwys hyd at gerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Abercannaid ac yn ei chynnwys.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael/ymuno tua'r gogledd a ffyrdd ymadael/ymuno tua'r de y gefnffordd rhwng Cylchfan Fach Dowlais a Chylchfan Abercannaid.

## THE A4060 TRUNK ROAD (LITTLE DOWLAIS ROUNDABOUT TO ABERCANAID ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (TEMPORARY SPEED LIMITS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4060 trunk road between Little Dowlais Roundabout and Abercanaid Roundabout, Merthyr Tydfil.

The effect of the Order is to temporarily impose either a 50 mph, 40 mph or 30 mph speed limit on the lengths of the A4060 trunk road described in the Schedule to this Notice.

It is expected that the temporary restrictions, which will be signed accordingly, will come into force at 06:00 hours on 1 January 2024 and operate intermittently for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE

The lengths of the northbound and southbound carriageways of the trunk road that extend from and include the entire circulatory carriageway of Little Dowlais Roundabout to and include the entire circulatory carriageway of Abercanaid Roundabout.

The entire lengths of the northbound and southbound exit/entry slip roads of the trunk road between Little Dowlais Roundabout and Abercanaid Roundabout.